**Lesley Griffiths AC/AM**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein Cyf:

Mike Hedges AC
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd,
Amgylchedd a Materion Gwledig

14 Mai 2020

Annwyl Mike,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17 Ebrill ynghylch y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil yr Amgylchedd. Fel y gwyddoch, mae'r gwaith o graffu ar y Bil wedi'i oedi ar hyn o bryd ac, o ganlyniad, cytunwyd ar ddyddiad adrodd diwygiedig ar gyfer adroddiad y Pwyllgor. Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor am fod mor ystyriol o effaith yr amgylchiadau digynsail rydym yn eu hwynebu ac am ganiatáu i mi gyflwyno fy ymatebion ar ffurf gohebiaeth.

Rwyf wedi darparu gwybodaeth ychwanegol yn unol â'r cais yn y ddogfen atodedig.

Yn gywir
Lesley

**Lesley Griffiths AC/AM**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu lle gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain ar oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**<u>Ymatebion i gwestiynau'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Amgylchedd y DU</u>**

**1. A allwch chi ymhelaethu ar eich rhesymeg dros gynnwys darpariaethau ar gyfer Cymru ym Mil y DU, y tu hwnt i'r hyn a nodir yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol?**

Mae Bil yr Amgylchedd yn cefnogi cydrwymedigaeth y DU i drosi Pecyn Economi Gylchol yr UE (CEP). Yn ogystal â bodloni anghenion y darpariaethau CEP, bydd y Bil yn cefnogi uchelgais Cymru i symud i economi fwy cylchol hefyd. Mae'n darparu'r adnoddau deddfwriaethol i gefnogi'r ffordd rydym yn mynd i'r afael â throseddau gwastraff, taflu sbwriel, gwella cyfraddau ailgylchu, cymell effeithlonrwydd adnoddau a sicrhau bod cynhyrchwyr yn talu am gostau diwedd oes y cynhyrchion a'r deunyddiau a roddir ar y farchnad.

Yn ogystal, mae'r darpariaethau deddfwriaethol presennol o fewn un darn o ddeddfwriaeth ac er mwyn darparu parhad a hygyrchedd i ddefnyddwyr mae'r Bil yn darparu un ffynhonnell i ddiwygio'r ddeddfwriaeth bresennol a thrwy hynny leihau nifer y gwelliannau o fewn y ddeddfwriaeth ffynhonnell.

Mewn perthynas ag ansawdd aer mae cymal 70 a Rhan 2 o Atodlen 12 yn diwygio Rhan III o Ddeddf Aer Glân 1993, mewn perthynas â Chymru. Effaith y diwygiad arfaethedig i Ddeddf Aer Glân 1993 yw creu dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi rhestri ar gyfer cofnodi tanwyddau awdurdodedig a mathau eithriedig o leoedd tân y gellir eu defnyddio'n gyfreithlon yn Ardaloedd Rheoli Mwg Cymru ac i symud oddi wrth wneud is-ddeddfwriaeth i gyflawni'r nod hwn. Y sail resymegol dros ddefnyddio Bil Amgylchedd y DU yw sicrhau manteision i weithgynhyrchwyr a defnyddwyr cyn gynted â phosibl. Bydd busnesau/gweithgynhyrchwyr yn elwa wrth i'r oedi rhwng cael argymhelliad gan yr arbenigwyr technegol sy'n argymell cynhyrchion i'w defnyddio a rhoi cynnyrch ar y farchnad gael ei leihau; bydd mabwysiadu rhestri cyhoeddedig yn lleihau’r lwfans ansicrwydd wrth gofnodi a diweddaru'r rhestri o gynhyrchion y gellir eu defnyddio'n gyfreithlon; a bydd proses symlach, fwy effeithiol yn cynyddu dewis y defnyddiwr wrth i fwy o gynhyrchion ddod i'r farchnad yn gynt. Bydd manteision amgylcheddol hefyd gan y bydd gwella sut y gweithredir y gyfundrefn rheoli mwg yng Nghymru yn ei gwneud yn haws i nodi cynhyrchion y gellir eu defnyddio'n gyfreithlon mewn ardaloedd rheoli mwg.

Mae'r pwerau i Weinidogion Cymru mewn perthynas â dŵr yn cyd-fynd â'r ymrwymiadau yn Strategaeth Ddŵr i Gymru Llywodraeth Cymru, gan gynnwys gweithio gyda chwmnïau dŵr, rheoleiddwyr ac awdurdodau lleol i gyflwyno cynlluniau ar gyfer rheoli dŵr gwastraff a charthffosiaeth. Ein nod yw sicrhau bod systemau carthffosiaeth a draenio yn gydnerth ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol, gyda digon o gapasiti i reoli'r galw a roddir arnynt heb achosi llygredd na llifogydd o garthffosydd yng nghartrefi pobl. Bydd hyn yn ein galluogi i symud tuag at ddull ataliol, sy'n egwyddor allweddol arall o ran rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Mae pwerau draenio tir yn angenrheidiol i ganiatáu ar gyfer diwygio a diweddaru'r fethodoleg o gyfrifo'r rhaniad incwm rhwng ardollau arbennig ac ardrethi draenio.
Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth hefyd i ddarparu methodoleg amgen ar gyfer cyfrifo gwerth tir trethadwy (tir ac adeiladau amaethyddol) er mwyn osgoi'r posibilrwydd o ystumio’r cyfrifiad dosrannu.

Mae'r pwerau ym Mil yr Amgylchedd yn angenrheidiol er mwyn cyflawni cyfundrefn Cemegion sy'n gweithio. Roedd rhai newidiadau a fyddai'n helpu Cofrestru, Gwerthuso, Awdurdodi a Chyfyngu ar Gemegau (REACH) y DU i weithredu'n fwy effeithiol y tu allan i gwmpas y pwerau yn y Ddeddf Ymadael. Rydym yn mynd o system a gynlluniwyd ar gyfer 28 o aelod-wladwriaethau i un wladwriaeth â phedair gwlad. Felly, mae rhai agweddau ar REACH yn anymarferol neu'n orfeichus i fusnesau. Mae hyn yn debygol o olygu newidiadau i'r Rheoliadau REACH presennol er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'w defnyddio ar raddfa'r DU yn unig. Yn ogystal, pan fyddwn yn colli pwerau adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, ni fyddwn yn gallu gwneud unrhyw newidiadau i reoliadau gorfodi REACH.

Heb y pwerau hyn, byddai'n rhaid i UK REACH weithredu yng nghyd-destun Offerynnau Statudol Ymadael â'r UE. Yn y sefyllfa hon, gallem wynebu nifer o risgiau a materion yn gyflym, yn enwedig o ran y dyddiadau cau ar gyfer cofrestru ac ailadrodd profion anifeiliaid. Mae'n bosibl y bydd angen y pwerau hefyd i adlewyrchu newidiadau i drefniadau'r UE rydym am eu cynnal. Mae REACH yn ymdrin â materion a gadwyd yn ôl megis iechyd a diogelwch yn y gweithle a safonau cynnyrch, yn ogystal â meysydd datganoledig fel iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd. Yn hyn o beth, byddai angen yr un offeryn deddfwriaethol ar gyfer mesurau i atal cemegyn rhag peri niwed i iechyd dynol yn ogystal ag achosi niwed i'r amgylchedd. Felly, byddai'n anodd deddfu ar gyfer pwerau o'r fath yn y Cynulliad.

**2. A allwch chi egluro pa rai o'r darpariaethau ar gyfer Cymru sy'n hanfodol o ran amser, a pham?**

Yn sgil colli adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd, sy'n ein galluogi i ddiweddaru deddfwriaeth eilaidd lle'n briodol rydym wedi cymryd pwerau galluogi i ddiweddaru'r ddeddfwriaeth mewn rhai meysydd megis gwastraff peryglus, pwerau ansawdd dŵr (sylweddau blaenoriaeth) a REACH.

O dan y cytundeb pontio, mae'n rhaid i'r DU drosi diwygiadau erthygl 8A i Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff yr UE fel rhan o Becyn Economi Gylchol yr UE. Mae darpariaethau Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr yn y Bil yno i'n galluogi ni, ynghyd â chenhedloedd eraill y DU, i fodloni'r gofynion sylfaenol cyffredinol mewn perthynas â chyfrifoldeb cynhyrchwyr yn y Pecyn Economi Gylchol.

Bydd angen rhoi pwerau mewn perthynas â REACH ar waith yn fuan ar ôl y cyfnod pontio. Pan fyddwn yn colli pwerau o dan adran 2(2), ni fyddwn yn gallu gwneud unrhyw newidiadau i reoliadau gorfodi REACH er mwyn i ni allu parhau i gyd-fynd â newidiadau technegol. Drwy gymryd pwerau yn y bil hwn, bydd y Llywodraeth yn gallu ymateb yn ddi-oed i unrhyw faterion gweithredu sy'n codi a gwneud i'r hyn sy'n ddarn mawr a chymhleth o ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r UE weithio.

Y rheswm y mae amser yn ystyriaeth bwysig yn hyn o beth yw oherwydd y ffaith bod terfynau amser a gweithgareddau/penderfyniadau i'w gwneud o dan REACH sy'n cael eu sbarduno gan ddiwedd y cyfnod gweithredu. Mae colli pwerau adran 2(2) yn ystyriaeth lai pwysig o ran amser o gymharu â'r angen i ddiwygio terfynau amser o bosibl neu i symleiddio'r broses REACH pan ddaw'n weithredol. Mae pwerau adran 2(2) yn ymwneud â diwygio rheoliadau gorfodi REACH. Cafodd gweddill y rheoliadau REACH eu diwygio gan gyfraith yr UE a'u cymhwyso i'r DU heb yr angen am ddeddfwriaeth ddomestig. Heb y pwerau sydd wedi'u cynnwys yn y Bil, byddai angen deddfwriaeth sylfaenol i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau cychwynnol gyda REACH (megis busnesau'n anhapus â'r terfyn amser o ddwy flynedd ar gyfer cofrestru).

Yn fwy cyffredinol, hoffem gyflwyno'r holl newidiadau cyn gynted â phosibl, o ystyried y buddiannau a ddisgrifir yn yr ateb i gwestiwn 1.

**3. Beth yw'r goblygiadau i bolisi Cymru yn y dyfodol o fewn y meysydd pwnc perthnasol, os na chaiff y darpariaethau ar gyfer Cymru eu cynnwys ym Mil y DU?**

Rydym wedi nodi meysydd lle mae angen penodol i ddefnyddio Bil y DU ac mae hyn wedi bod yn seiliedig ar ystyried nifer o ffactorau.

Yn gyntaf, mae rhai darpariaethau yn y Bil yn adlewyrchu polisi presennol Llywodraeth Cymru ac felly mae'r Bil yn galluogi i bolisi Cymru gael ei gyflawni yn y dyfodol

Yn ail, mae'r Bil yn darparu cyfrwng deddfwriaethol priodol sy'n:

1. Galluogi defnyddwyr i barhau i gael mynediad drwy barhau â dull deddfwriaethol ar gyfer Cymru a Lloegr;
2. Ymwneud â system ar gyfer y DU gyfan fel yn achos darpariaethau REACH;
3. Caniatáu ar gyfer cyflawni polisi Cymru yn gyflymach, o gofio'r cyfyngiad ar gapasiti'r Senedd wrth i ni agosáu at ddiwedd y tymor presennol
4. Galluogi gweithredu gofynion yr UE

Fel y nodir uchod, mae'r pwerau yn y Bil yn cefnogi cydrwymedigaeth y DU i drosi Pecyn Economi Gylchol yr UE ac yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer elfennau allweddol o'r economi gylchol ynghyd â'r darpariaethau i reoli'r fframwaith deddfwriaethol ar wastraff peryglus nawr ein bod wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd. Yn fwy penodol, mae rhannau o'r Bil wedi'u cynllunio i gynorthwyo'r angen i fynd i'r afael â throseddau gwastraff, datblygu Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr, hyrwyddo mesurau effeithlonrwydd adnoddau, caniatáu i ni godi tâl am eitemau plastig untro a chyflwyno cynllun dychwelyd ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd. Felly mae hefyd yn alinio ac yn cefnogi ein polisi a'n hymrwymiadau domestig sydd i'w gweld yn *Mwy nag Ailgylchu: strategaeth i wneud economi gylchol Cymru yn realit*i. Mae eu cynnwys mewn Bil ar gyfer y DU yn ategu'r gwaith i gydweithredu ledled y DU hefyd ac i ddatblygu dull gweithredu ar gyfer y DU gyfan lle y bo'n briodol.

Pe na baem yn bwrw ymlaen â'r darpariaethau hyn yng Nghymru, byddai'r goblygiadau fel y nodir isod.

**Cymalau 55:** Byddai goblygiadau peidio â bwrw ymlaen â'r darpariaethau i ganiatáu olrhain gwastraff yn electronig yn golygu na fyddai Cymru'n gallu chwarae ei rhan yng ngwaith y DU gyfan i ddigideiddio prosesau olrhain gwastraff.

Y prif gostau economaidd fyddai colli refeniw busnes i'r sector gwastraff cyfreithlon, colli Treth Dirlenwi drwy gamgyfrifo gwastraff a chostau i'r sector cyhoeddus o glirio safleoedd gwastraff a adawyd a gwastraff a dipiwyd yn anghyfreithlon.

Yn ogystal, ni ellir bwrw ymlaen â bwriad Llywodraeth Cymru i gyflwyno system olrhain electronig orfodol er mwyn darparu gwybodaeth flynyddol am wastraff diwydiannol a masnachol a gynhyrchir yng Nghymru heb y darpariaethau hyn.

**Cymal 61:**

Heb y darpariaethau o dan y cymal hwn, ni fydd Cyfoeth Naturiol Cymru, os caiff ei benodi'n rheolydd penodedig ar gyfer cynllun cyfrifoldeb cynhyrchwyr a wneir o dan bwerau yn adran 93 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995, yn gallu rhoi cynlluniau codi tâl priodol ar waith.

Bydd y pwerau codi tâl hyn yn caniatáu i Cyfoeth Naturiol Cymru adennill eu costau rhesymol yn deillio o ymchwilio, ymyrryd a gorfodi cynlluniau cyfrifoldeb cynhyrchwyr presennol mewn ffordd briodol a chynlluniau Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr newydd wrth iddynt gael eu sefydlu.

Mae'r cymal yn caniatáu i Cyfoeth Naturiol Cymru weithredu darpariaethau codi tâl y cynllun trwyddedu amgylcheddol presennol hefyd er mwyn eithrio gweithrediadau gwastraff, gan gynnwys taliadau cofrestru a pharhau lle y bo'n briodol, er mwyn ariannu'r gwaith o fonitro cydymffurfiaeth y gweithrediadau hyn.

Mae **cymal 63** ac **Atodlen 10** yn diwygio deddfwriaeth sy'n ymwneud â phwerau gorfodi a materion amgylcheddol eraill. Heb y pŵer i ganiatáu i Cyfoeth Naturiol Cymru awdurdodi'r heddlu i ymafael mewn cerbydau heb i swyddog Cyfoeth Naturiol Cymru fod yn bresennol, byddai'n cael ei ystyried fel petai'n cael ei wneud ar ran awdurdod casglu gwastraff yr ardal lle mae'r ymafael yn digwydd, gan gynyddu'r gost gyffredinol a'r fiwrocratiaeth gan fod yn rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru ail-ymafael yn y cerbyd gan yr awdurdod casglu gwastraff.

Bydd pwerau cyfarwyddo mewn perthynas â gwastraff yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyfarwyddo cludwr gwastraff i gasglu gwastraff o safle penodol a mynd ag ef i safle penodol, gan gynnwys mewn achosion lle mae gwastraff wedi'i dipio'n anghyfreithlon. Mae'n sicrhau hefyd y caiff eu costau ac unrhyw ffioedd a thaliadau sy'n berthnasol i'r gweithgarwch a gyflawnir ar ran Gweinidogion Cymru eu digolledu'n briodol.

Pŵer mynediad mewn perthynas â rheoli llygredd ac ati – heb y pŵer hwn, dim ond cymryd copïau o ddogfennau a gofyn amdanynt os ydynt yn gwybod eu bod yno y bydd swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i allu ei wneud, ond nid chwilio am ddeunydd neu ymafael mewn deunydd a fyddai'n eu cynorthwyo i ymchwilio i droseddau gwastraff.

**Cymal 66:** Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon a throseddau gwastraff. Yn 2018/19, cofnododd awdurdodau lleol dros 33,000 o achosion o dipio anghyfreithlon yng Nghymru. Amcangyfrifir ei fod wedi costio ychydig o dan £2 filiwn i drethdalwyr Cymru i'w glirio[1].

Cyflwynwyd nifer o Hysbysiadau Cosb Benodedig drwy is-ddeddfwriaeth gan ddefnyddio adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972. Er enghraifft, defnyddiodd Rheoliadau Dyletswydd Gofal o ran Gwastraff Cartref (Cosbau Penodedig) (Cymru) 2019 y ddeddfwriaeth hon i ddiwygio Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

Mae diddymu Deddf y Cymunedau Ewropeaidd yn dileu'r pŵer presennol i newid lefelau'r cosbau hyn drwy is-ddeddfwriaeth, ac felly mae angen pŵer newydd i ddarparu ar gyfer lefel y cosbau hyn drwy is-ddeddfwriaeth, er mwyn gallu diwygio lefel y dirwyon naill ai i fyny neu i lawr.

Heb Gymal 66 ni fydd Gweinidogion Cymru yn gallu diwygio'r cosbau presennol am yr Hysbysiadau Cosb Benodedig sy'n ymwneud â thipio anghyfreithlon a dyletswydd gofal deiliaid tai.

**Cymal 67:** Mae rheoleiddio gweithgareddau gwastraff yn rhan o fframwaith trwyddedu a rennir ar gyfer Cymru a Lloegr yn Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2016. Mae'n ofynnol i weithrediadau gwaredu ac adfer gwastraff feddu ar drwydded amgylcheddol oni bai eu bod wedi'u heithrio o'r gofyniad hwn.

Heb Gymal 67 dim ond amodau ar gyfer gweithgareddau eithriedig y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gallu eu gosod (h.y. y rhai nad oes angen trwydded drwy reoliadau) a byddai'n cyfyngu ar allu Cyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau bod rheolaethau priodol ar waith wrth i'r farchnad wastraff newid.

Os na chaiff y darpariaethau o dan Gymal 70, Atodlen 12 eu deddfu, ni fyddai'r manteision a ddisgrifir yn yr ateb i gwestiwn 1 yn cael eu gwireddu. Ni fyddem yn gallu cyflawni, yn yr amser byrraf posibl, ein nod o alluogi gweithgynhyrchwyr i werthu eu cynnyrch heb rwystr neu i wella sut y gweithredir y gyfundrefn rheoli mwg yng Nghymru.

Heb y pwerau mewn perthynas â dŵr, bydd gallu Gweinidogion Cymru i weithredu'n unol â'r ymrwymiadau yn y Strategaeth Ddŵr i Gymru, Llywodraeth Cymru a symud tuag at ddull ataliol yn cael ei gyfaddawdu.

Mae pwerau draenio tir yn angenrheidiol i ganiatáu diwygio a diweddaru'r fethodoleg o gyfrifo'r rhaniad incwm rhwng ardollau arbennig ac ardrethi draenio. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth hefyd i ddarparu methodoleg amgen ar gyfer cyfrifo gwerth tir trethadwy (tir ac adeiladau amaethyddol) er mwyn osgoi'r posibilrwydd o lurgunio'r cyfrifiad dosrannu.

Mae'r pwerau ym Mil yr Amgylchedd yn angenrheidiol er mwyn sicrhau cyfundrefn weithredol ar gyfer Cemegion. Heb y pwerau hyn, byddai'n rhaid i REACH weithredu yng nghyd-destun Offerynnau Statudol Ymadael â'r UE. Roedd rhai newidiadau a fyddai'n helpu REACH i weithredu'n fwy effeithiol y tu allan i gwmpas y pwerau yn y Ddeddf Ymadael. Rydym yn cymhwyso system a gynlluniwyd ar gyfer 28 aelod-wladwriaeth i gyd-destun y DU yn unig (rhagwelir y bydd y system yn cael ei chymhwyso ar sail Prydain yn unig yn y pen draw, ond fel y mae'r ddeddfwriaeth wedi'i drafftio ar hyn o bryd nid yw Gogledd Iwerddon wedi'i dileu o Offeryn Statudol REACH eto). Felly, mae rhai agweddau ar REACH yn anymarferol neu'n orfeichus i fusnesau. Os yw REACH yn anaddas ar gyfer cyd-destun y DU yn unig, efallai y bydd effaith ar ein gallu i ddiogelu iechyd pobl, a chynnal a gwella safonau amgylcheddol mewn perthynas â chemegion.

Yn y sefyllfa hon, gallem wynebu nifer o risgiau a phroblemau'n gyflym, yn enwedig o ran y dyddiadau cau ar gyfer cofrestru ac ailadrodd profion anifeiliaid. Mae'n bosibl y bydd angen y pwerau hefyd i adlewyrchu newidiadau i gyfundrefn yr UE rydym am eu cynnal. Mae REACH yn ymdrin â materion a gedwir yn ôl megis iechyd a diogelwch yn y gweithle a safonau cynnyrch, yn ogystal â meysydd datganoledig fel iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd. Felly, byddai'n hynod gymhleth deddfu ar gyfer pwerau o'r fath yn y Cynulliad. Yn ogystal, pan fyddwn yn colli pwerau adran 2(2), ni fyddwn yn gallu gwneud unrhyw newidiadau i reoliadau REACH.

**4. A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y materion amgylcheddol nad ydynt wedi'u datganoli y bydd gan Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd (OEP) oruchwyliaeth drostynt mewn perthynas â Chymru?**

Mae cylch gorchwyl yr OEP ar gyfer Lloegr a materion a gedwir yn ôl. Prin yw'r meysydd a gedwir yn ôl, un enghraifft benodol yw INSPIRE (Seilwaith ar gyfer Gwybodaeth Ofodol yn Ewrop), sydd wedi'i neilltuo'n benodol yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006. Fodd bynnag, mae cylch gwaith yr OEP wedi'i ymestyn i gynnwys newid yn yr hinsawdd, sydd â chysylltiad agos ag ynni, sydd, heblaw am rai eithriadau, yn fater a gedwir yn ôl. Mae materion eraill, megis CITES, i'r graddau y mae'n ymwneud er enghraifft â gwahardd a rheoleiddio mewnforio ac allforio rhai planhigion ac anifeiliaid sydd mewn perygl yn fater a gedwir yn ôl, sy'n gymwys i gludo gwastraff ar draws y ffin hefyd.

Er na fydd llawer o feysydd lle y bydd yr OEP yn goruchwylio materion amgylcheddol yng Nghymru, lle mae hyn yn digwydd mae'n hanfodol bod yr OEP yn gweithio gyda'r corff

perthnasol sy'n gyfrifol am lywodraethu amgylcheddol yng Nghymru i sicrhau bod y meysydd o orgyffwrdd rhwng materion a gedwir yn ôl a rhai datganoledig yn cael eu hystyried yn llawn. Am y rheswm hwn, rwyf yn ceisio cryfhau'r ddyletswydd bresennol i ymgynghori a geir yng nghymal 24(4) o'r Bil, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r OEP ymgynghori â chyrff llywodraethu amgylcheddol datganoledig.

**5. I'r graddau y mae unrhyw ddarpariaethau am yr amgylchedd naturiol yn berthnasol mewn perthynas â Chymru, i ba raddau ydych chi fodlon bod yr amgylchedd morol wedi'i gwmpasu i raddau digonol o fewn ystyr yr ymadrodd "amgylchedd naturiol" yng Nghymal 41? Os na chaiff yr amgylchedd morol ei gwmpasu, sut ydych chi'n bwriadu mynd i'r afael â hynny?**

Mae Cymal 41 yn ymwneud â darpariaethau sydd yn rhan 1, nad ydynt yn ymwneud â Chymru ond yn hytrach â Lloegr. Er enghraifft, i'r targedau a'r cynlluniau gwella naturiol a nodir ym Mhennod 1 ac i gylch gwaith yr OEP. Fel y cyfryw, mae'r diffiniad o amgylchedd naturiol yn ymwneud â'r amgylchedd naturiol yn Lloegr. Mae'n ymwneud hefyd â chylch gwaith yr OEP ac felly mae mewn perthynas â Lloegr a meysydd a gedwir yn ôl ac felly dim ond i'r agweddau hynny ar ardaloedd morol Cymru nad ydynt o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd y byddai'n berthnasol.

**6.A allwch ymhelaethu ar y pryderon sy'n dal i fod gennych mewn perthynas â Chymal 24(4)? Yn benodol, a allwch chi egluro a ydych am weld gwelliant i Fil y DU i sicrhau bod Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd ac unrhyw gorff llywodraethu amgylcheddol newydd yng Nghymru yn cydweithredu a / neu'n cydlafurio?**

Mae cymal 24(4) yn gosod dyletswydd ar yr OEP i ymgynghori â chorff llywodraethu amgylcheddol datganoledig os yw o'r farn y gallai arfer unrhyw swyddogaethau penodol fod yn berthnasol i'r broses o arfer swyddogaeth llywodraethu amgylcheddol ddatganoledig.

Barn Llywodraeth Cymru ers tro yw y bydd angen i'r cyrff llywodraethu amgylcheddol perthnasol yng Nghymru a Lloegr gydweithio'n agos i nodi a gweithredu ar gwynion a allai fod yn drawsffiniol eu natur neu'n berthnasol i faterion a gedwir yn ôl a rhai datganoledig.

Mae angen hefyd i ddinasyddion yn y ddwy wlad allu cael mynediad rhwydd i broses gwynion, gan roi'r cyfrifoldeb ar y cyrff llywodraethu amgylcheddol i hwyluso yn hytrach na disgwyl i ddinasyddion ymdopi â chymhlethdod materion a gedwir yn ôl/datganoledig.

Nid yw'r ddyletswydd arfaethedig i ymgynghori yn mynd cyn belled â darparu ar gyfer y dull cydweithredol hwn, gan nad yw'n caniatáu ar gyfer nodi'n gynnar ble y gallai fod angen i'r cyrff gydweithio, ac i'r corff Cymreig fod yn rhan o'r penderfyniad ynghylch a yw ymchwiliad yn berthnasol iddo. At hynny, nid yw'n caniatáu i ymchwiliadau gael eu cynnal ar gyfer rhannu arferion gorau ac arbenigedd rhwng y cyrff. Yn unol â hynny, rydym yn ceisio gwelliant i'r Bil i alluogi trefniadau cydweithredol.

**7. A allwch chi ein diweddaru ar eich trafodaethau â Llywodraeth y DU mewn perthynas â'ch pryderon ynghylch Cymal 24(4), gan gynnwys unrhyw ganlyniad?**

Mae trafodaethau wedi parhau gyda DEFRA ar sut y gall y cyrff gydweithredu i ystyried cwynion gyda'i gilydd, rhannu gwybodaeth a, lle y bo'n briodol, cynnal ymchwiliadau ar y cyd.

**8. Beth yw eich safbwynt os na ellir datrys y mater hwn cyn y ddadl ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol?**

Rwy'n hyderus ein bod wedi cyflwyno achos cryf dros yr angen i'r OEP weithio'n agos gyda'r corff Cymreig sy'n gyfrifol am lywodraethu'r amgylcheddol ac rwy'n disgwyl am ymateb yr Ysgrifennydd Gwladol.

**9. A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am y cynnydd rydych wedi'i wneud wrth ddatblygu cynigion ar gyfer trefniadau llywodraethu amgylcheddol newydd yng Nghymru, gan gynnwys:**

- **canfyddiadau'r Grŵp Gorchwyl Rhanddeiliaid, a oedd i fod i adrodd ar ddechrau 2020;**

Cwblhaodd y Grŵp Gorchwyl Rhanddeiliaid ei argymhellion ym mis Ebrill, ac rwyf wedi cael copi o'u hadroddiad. Byddaf yn gofyn i'm swyddogion gynnal dadansoddiad llawn o'r argymhellion yn awr fel rhan o arfarniad ehangach o opsiynau. Bydd hyn yn sicrhau bod ein dull o weithredu yn cyd-fynd yn glir â'n dull presennol o ymdrin â'r amgylchedd ac â rhaglen ehangach Llywodraeth Cymru. Ar ôl cwblhau'r gwaith hwn, byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig.

Byddaf yn gofyn i randdeiliaid barhau i weithio gyda swyddogion polisi ar ddatblygiad manwl y polisi.

- **yr amserlen rydych chi'n gweithio tuag ati ar gyfer cyflwyno Bil Egwyddorion a Threfniadau Llywodraethu Amgylcheddol ar gyfer Cymru; ac**

Rydym wedi bod yn glir yn ein hymrwymiad i ddeddfu er mwyn rhoi sail statudol i'n hagwedd at egwyddorion a threfniadau llywodraethu amgylcheddol.

Mae'r rhaglen ddeddfwriaethol bresennol yn dod o dan bwysau sylweddol yn sgil yr angen i gyflwyno deddfwriaeth frys i fynd i'r afael â Covid-19 a'r rhaglen sylweddol o is-ddeddfwriaeth i ddarparu llyfr statud gweithredol ar gyfer diwedd y Cyfnod Pontio yn ddiweddarach eleni. Mae'n amlwg bod hyn wedi effeithio ar ein hamserlen ddeddfwriaethol ac mae'n effeithio ar y Biliau sydd yn y rhaglen ddeddfwriaethol ar hyn o bryd.

Yng ngoleuni hyn oll, ni all Llywodraeth Cymru roi unrhyw warant y bydd unrhyw Filiau newydd yn cael eu cyflwyno yn ddiweddarach eleni.

- **sut yr eir i'r afael ag unrhyw fylchau sy'n codi yn dilyn diwedd y cyfnod gweithredu yn absenoldeb Bil ar gyfer Cymru?**

Rwyf wedi rhoi cyfarwyddyd i'm swyddogion i ystyried opsiynau i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau dros dro hyd nes y gallwn weithredu ein deddfwriaeth ein hunain.

Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i ddatblygu a pharatoi mesurau dros dro ar gyfer derbyn cwynion am lywodraethu amgylcheddol yng Nghymru a fyddai'n dod i rym erbyn diwedd y cyfnod pontio ar gyfer gadael yr UE ar 31 Rhagfyr 2020. Gofynnir i'r Grŵp Gorchwyl Rhanddeiliaid weithio gyda swyddogion i ddatblygu'r mesurau dros dro hyn ymhellach.

O ran egwyddorion, er bod gennym, wrth gwrs, gyfres o egwyddorion amgylcheddol yn ein Deddf yr Amgylchedd, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo eisoes i barhau i gymhwyso pedair egwyddor amgylcheddol yr UE wrth lunio polisïau hyd nes y byddwn yn eu cynnwys mewn deddfwriaeth.

**Rhan 3 – Effeithlonrwydd o ran Gwastraff ac Adnoddau**

**10. Sut a phryd ydych chi'n bwriadu defnyddio'r pwerau sy’n cael eu rhoi i Weinidogion Cymru yn Rhan 3 o Fil y DU?**

Byddai'r pwerau'n cael eu defnyddio i weithredu'r gofynion o fewn y Pecyn Economi Gylchol, megis cyflwyno cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer deunyddiau pacio a Chynllun Dychwelyd Ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd. Byddai'r pwerau'n cael eu defnyddio i fynd i'r afael â throseddau gwastraff, fel olrhain gwastraff yn electronig hefyd. Mae Llywodraeth Cymru a swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gyda swyddogion cyfatebol yng ngwledydd eraill y DU i weld sut y gallwn ddigideiddio prosesau olrhain gwastraff. Yn benodol, sut rydym yn cofnodi'r hyn sy'n digwydd i wastraff wrth iddo symud o gynhyrchu i adfer neu waredu.

**11. Sut mae'r darpariaethau yn Rhan 3 yn cyd-fynd â pholisi effeithlonrwydd adnoddau a gwastraff presennol Llywodraeth Cymru, a chyda’r cynigion a nodwyd yn ei hymgynghoriad ar y strategaeth ar gyfer economi gylchol?**

Mae'r darpariaethau yn y Bil yn bwysig oherwydd byddant yn caniatáu i ni fwrw ymlaen â llawer o'r ymrwymiadau a'r uchelgeisiau sydd yn *Mwy nag Ailgylchu: strategaeth i wneud economi gylchol Cymru yn realiti* drwy ddarparu cyfres hanfodol o ysgogiadau deddfwriaethol. Felly maent yn cyd-fynd yn llawn â'n polisi presennol ac yn darparu'r pwerau i gyflwyno newidiadau rheoleiddiol ar ôl ymadael â'r UE hefyd. Wrth wneud hynny, maent yn darparu'r modd o wneud darpariaethau rheoleiddiol i helpu i leihau gweithgarwch gwastraff anghyfreithlon a cholli deunydd gwerthfawr y gellir ei adennill o'r economi gylchol.

**12. Pryd mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi ei strategaeth newydd o ran gwastraff (i ddisodli cynllun 2010, Tuag at Ddyfodol Diwastraff)?**

- **A allwch chi egluro a fydd y strategaeth wastraff newydd yn cynnwys canllawiau sy’n ymwneud â llosgyddion?**

Daeth yr ymgynghoriad ar strategaeth economi gylchol newydd i ddisodli Tuag at Ddyfodol Diwastraff i ben ar 24 Ebrill 2020. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn a syniadau ar sut y gallwn weithredu mewn ffordd sy'n sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio cyhyd ag y bo modd, gan osgoi gwastraff ac sy'n gwneud cyfraniad allweddol at ddatgarboneiddio.

Wrth wneud hynny, roedd yn cynnwys cyfres o themâu a chamau arfaethedig i helpu i gyflawni'r nod hirdymor o sicrhau dyfodol diwastraff a dim allyriadau carbon net erbyn 2050 gan fanteisio ar y cyfleoedd sy'n deillio o drosglwyddo i economi fwy cylchol.

Cyn y pandemig presennol, nodwyd ein bwriad i gyhoeddi'r strategaeth derfynol yn ddiweddarach eleni a'n nod yw gwneud hynny o hyd.

Mae canllawiau'n bodoli eisoes o ran llosgi. Maent i'w gweld ym Mholisi Cynllunio Cymru ac yn TAN21, gan gynnwys atodiad technegol sy'n edrych yn fanwl ar dechnolegau trin gwastraff gwahanol.

Fel y dywed Mwy nag Ailgylchu, y nod yw sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio cyhyd ag y bo modd. Fodd bynnag, mae'n cydnabod hefyd fod gan Gymru gyfrifoldeb i ymdrin â'r gwastraff a gynhyrchwn yn ystod y cyfnod pontio. Felly, yn y cyfamser mae angen ymdrin yn effeithiol â'n gwastraff na ellir ei ailgylchu mewn ffordd sy'n ei atal rhag llygru'r amgylchedd neu sy'n golygu allforio'r broblem. Mae cyfleusterau a all ddefnyddio'r gwastraff hwn i adfer ynni a gwres yn darparu ffordd drosiannol bwysig o ymdrin â'r gwastraff hwn, yn unol â'r hierarchaeth gwastraff.

**13. I ba raddau ydych chi’n fodlon y bydd y darpariaethau yn Rhan 3 yn galluogi Llywodraeth Cymru i gyflawni ei huchelgais mai Cymru fydd y wlad gyntaf i beidio ag anfon unrhyw blastig i safleoedd tirlenwi?**

Mae'r darpariaethau yn y Bil yn darparu dulliau deddfwriaethol allweddol i gefnogi cyflawni ein hymrwymiadau. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am Bacio, a fydd yn cymell defnyddio mwy o ddeunyddiau pacio sydd wedi'u hailgylchu ac y gellir eu hailgylchu, gan gynnwys plastigau. Bydd y Cynllun Dychwelyd Ernes yn cefnogi'r broses o gasglu cynwysyddion diodydd (y mae llawer ohonynt yn blastig) gyda lefelau uchel disgwyliedig o ddal deunydd.

Mae darpariaethau eraill fel codi tâl am eitemau plastig untro, safonau eco-ddylunio a gwybodaeth am effeithlonrwydd adnoddau yn ddulliau deddfwriaethol gwerthfawr hefyd y gellir eu defnyddio. Fodd bynnag, ni ellir cyflawni ein nodau megis anfon dim gwastraff plastig i safleoedd tirlenwi drwy'r darpariaethau yn y Bil yn unig ac felly mae hyn yn rhan o'r gwaith ehangach o gyflawni'r camau yn Mwy nag Ailgylchu.

*Cyfrifoldeb cynhyrchwyr*

Mae cymal 47 a 48, ac Atodlenni 4 a 5 yn gwneud darpariaeth ynghylch cyfrifoldeb cynhyrchwyr a rhwymedigaethau cysylltiedig. Maent yn darparu pwerau i'r 'awdurdod cenedlaethol perthnasol' (gan gynnwys Gweinidogion Cymru) wneud rheoliadau i gyflwyno cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr diwygiedig am ('cynllun EPR’). Gall yr Ysgrifennydd Gwladol ddeddfu mewn perthynas â Chymru yn y maes hwn gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru (pŵer 'cydredol plws').

Yn 2019, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar y cyd ar gynigion ar gyfer cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ymgynghori ar ei strategaeth economi gylchol, sy'n cynnwys cynigion cyfrifoldeb cynhyrchwyr. Mae'r ymgynghoriad yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn "gweithio gyda llywodraethau eraill yn y DU i ddatblygu deddfwriaeth ar gyfer cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr (EPR)…”.

**14. A allwch gadarnhau eich bod yn bwriadu i Gymru fod yn rhan o gynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar lefel y DU? Os felly, a fydd y cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr diwygiedig – i'r graddau y mae'n ymwneud â Chymru – yn cael ei sefydlu gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan ei bwerau cydredol plws, a pha gyfle fydd gan y Cynulliad i graffu ar reoliadau a wneir o dan y pwerau hyn?**

Mae gweithredu'n gydredol yn cael yr un effaith â Gweinidogion Cymru yn cyflawni swyddogaethau yng Nghymru, oni bai bod caniatâd yn cael ei roi. Fodd bynnag, mae budd sylweddol i'r defnyddiwr wrth gwrs o weithio gyda'r gwledydd eraill ar gynllun ar gyfer y DU gyfan. Mae gwaith yn parhau ar raglen ar y cyd â'r Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon i ddatblygu cynllun EPR. Ar hyn o bryd, nid oes penderfyniad wedi'i wneud ynghylch sut y bydd y rheoliadau i ddeddfu EPR yn cael eu cyflwyno.

Bydd Gweinidogion Cymru yn cydymffurfio â'r broses yn unol â Rheol Sefydlog 30.

**15. Mae tystiolaeth wedi dod i law’r Pwyllgor sy’n awgrymu y dylid ymestyn y pŵer cyffredinol yn Rhan 1 o Atodlen 4 i alluogi rheoliadau i wneud darpariaeth ar gyfer gosod rhwymedigaethau cyfrifoldeb cynhyrchwyr at y diben o “leihau faint o ddeunyddiau crai rydym yn eu defnyddio”. Beth yw eich ymateb i hyn?**

Bydd y cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr a amlinellir yn Atodlen 4 yn arwain at leihau faint o gynnyrch neu ddeunydd a ddefnyddir neu atal cynnyrch neu ddeunydd rhag troi'n wastraff; yn ogystal â sicrhau cynnydd yn y defnydd o ailddefnyddio, ailddosbarthu, adfer neu ailgylchu cynhyrchion neu ddeunyddiau, y bydd pob un ohonynt yn lleihau'r defnydd a wneir o ddeunyddiau crai.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd effeithlonrwydd adnoddau yn gyffredinol i leihau'r effaith amgylcheddol yn ystod cylch bywyd cyfan cynnyrch. Gan gadw hyn mewn cof, mae darpariaeth ar gyfer effeithlonrwydd adnoddau ar gyfer cynhyrchion wedi'i chynnwys yn y Bil o dan Atodlen 7. Mae hyn yn caniatáu ar gyfer gosod gofynion, gan gynnwys cyfeiriad at safon benodol, mewn perthynas â'r deunyddiau y mae cynnyrch yn cael eu gweithgynhyrchu ohonynt o ran yr effaith ar yr amgylchedd naturiol.

Mae'n werth nodi hefyd y bydd y dreth ar bacio plastig ar draws y DU yn annog y defnydd o blastig wedi'i ailgylchu yn hytrach na phlastig newydd mewn deunydd pacio. Bydd yn creu mwy o alw am blastig wedi'i ailgylchu, ac yn ei dro yn ysgogi lefelau uwch o ailgylchu a chasglu gwastraff plastig, gan ei ddargyfeirio o safleoedd tirlenwi neu losgi. Daw'r cylch ymgynghori diweddaraf i ben ym mis Awst – rydym yn annog safbwyntiau a thystiolaeth gan randdeiliaid allweddol yn y diwydiant plastigau yng Nghymru.

**16. Mae tystiolaeth wedi dod i law'r Pwyllgor sy'n awgrymu y dylid diwygio'r pŵer cyffredinol yn Rhan 1 o Atodlen 5 i sicrhau bod cynhyrchwyr yn talu costau cylch bywyd llawn cynhyrchion neu ddeunyddiau neu'n cyfrannu atynt. Beth yw eich ymateb i hyn?**

Nod Atodlen 5 yw sicrhau y gellir codi tâl ar gynhyrchwyr sydd â rhwymedigaeth am gostau gwaredu diwedd oes eu cynnyrch. Mewn perthynas â chostau cylch bywyd llawn, mae Atodlen 7 Gofynion Effeithlon o ran Adnoddau yn caniatáu i fesurau gael eu cyflwyno i fynd i'r afael â'r effaith a gaiff cynnyrch ar yr amgylchedd naturiol yn ystod ei oes. Mae hyn yn cynnwys agweddau megis oes ddisgwyliedig cynnyrch, rhwyddineb cynnal a chadw ac atgyweirio, ailgylchu diwedd oes, y deunyddiau y mae cynnyrch yn cael ei weithgynhyrchu ohonynt, technegau gweithgynhyrchu ac adnoddau a ddefnyddiwyd wrth ei gynhyrchu a'i ddefnyddio.

*Cynlluniau ernes*

*Mae Cymal 51 ac Atodlen 8 yn darparu pwerau i'r 'awdurdod cenedlaethol perthnasol' (gan gynnwys Gweinidogion Cymru) wneud rheoliadau sy'n sefydlu cynlluniau ernes. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol ddeddfu mewn perthynas â Chymru yn y maes hwn gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru (pŵer 'cydredol plws').*

**17.** A allwch egluro a ydych yn bwriadu i Gymru fod yn rhan o Gynllun Dychwelyd Ernes gyda Lloegr a Gogledd Iwerddon? Os felly, a fydd y Cynllun Dychwelyd Ernes – i'r graddau y mae'n ymwneud â Chymru – yn cael ei sefydlu o dan bwerau cydredol plws yr Ysgrifennydd Gwladol, a pha gyfle fydd gan y Cynulliad i graffu ar reoliadau a wneir o dan y pwerau hyn?

Beth yw'r ystyriaethau ymarferol ar gyfer bod yn rhan o Cynllun Dychwelyd Ernes gyda Gogledd Iwerddon?

Os na ellir cytuno ar Gynllun Dychwelyd Ernes gyda Lloegr a Gogledd Iwerddon, a ydych yn bwriadu cyflwyno cynllun yng Nghymru o hyn?

Mae'r gwaith yn parhau ar y cyd â Lloegr a Gogledd Iwerddon i ddatblygu Cynllun Dychwelyd Ernes. Mae'r gwaith hwn yn parhau ar hyn o bryd ac mae paratoadau'n cael eu gwneud ar gyfer ail ymgynghoriad ar ddiwyg manwl y cynllun a'r dulliau gweithredu a ffefrir. Ar hyn o bryd, nid oes penderfyniad wedi'i wneud hyd yma ynghylch y ffordd o gyflwyno'r rheoliadau i ddeddfu ynghylch y Cynllun Dychwelyd Ernes ac fel y nodwyd yn flaenorol, mae'n bwysig bod y dull gweithredu terfynol yn briodol i Gymru.

Bydd Gweinidogion Cymru yn cydymffurfio â'r broses yn unol â Rheol Sefydlog 30.

Mae'r rhaglen waith y Cynllun Dychwelyd Ernes yn ystyried amryw o oblygiadau ymarferol mewn perthynas â chynllunio a gweithredu unrhyw Gynllun. Mae hyn wedi cynnwys dysgu gan wledydd eraill yn Ewrop ac mewn mannau eraill sydd wedi gweithredu cynlluniau tebyg dros y blynyddoedd.

Mae yna fanteision posibl i gynllun ar y cyd, ond mae'n bwysig ei fod yn adlewyrchu anghenion Cymru hefyd. Os na fydd cynllun ar y cyd yn cyflawni hyn, yna bydd Cynllun Dychwelyd Ernes ar gyfer Cymru'n unig yn cael ei ystyried.

**18. Pwy fydd yn gyfrifol am reolaeth weithredol y Cynllun Dychwelyd Ernes yng Nghymru?**

Roedd yr ymgynghoriad ar y cyd yn cynnwys cynigion ar gyfer sefydliad annibynnol i'w arwain gan y diwydiant/cymdeithas fasnach i reoli'r broses o weithredu'r cynllun a'i redeg o ddydd i ddydd, sef y Sefydliad Rheoli Ernes (DMO). Mae gwaith yn mynd rhagddo ar ddatblygu trefniadau llywodraethu a bydd angen i unrhyw drefniadau ar y cyd ddiwallu anghenion Cymru.

**19. A allwch chi gadarnhau a ydych yn bwriadu i Gyfoeth Naturiol Cymru fod yn gyfrifol am fonitro a gorfodi'r Cynllun Dychwelyd Ernes yng Nghymru? Os felly, pa drafodaethau ydych chi wedi'u cynnal gyda Chyfoeth Naturiol Cymru yn hyn o beth?**

Yn yr un modd â'r cwestiwn blaenorol, nid yw ffurf fanwl proses goruchwylio reoleiddiol y Cynllun Dychwelyd Ernes wedi'i chwblhau ac mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo. Ymatebodd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ffurfiol i'r ymgynghoriad ar y Cynllun a chafwyd trafodaethau ar lefel swyddogion ar y rôl bosibl i Cyfoeth Naturiol Cymru o ran rheoleiddio Cynllun Dychwelyd Ernes. Bydd y trafodaethau hyn yn parhau wrth i ni ddatblygu'r cynigion ar gyfer rheoleiddio a llywodraethu'r Cynllun Dychwelyd Ernes.

**20. Sut y mae'r pwerau i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ynghylch codi tâl am eitemau plastig untro yn cydweddu â chynigion Llywodraeth Cymru i wahardd rhai o'r eitemau hynny yn 2021?**

Mae'r gwaharddiad arfaethedig ar eitemau plastig untro'n canolbwyntio ar restr ddiffiniedig o eitemau a welir yn aml yn yr amgylchedd morol ledled yr Undeb Ewropeaidd, ac mae dewisiadau amgen di-blastig ar gael yn rhwydd yn eu lle. Bydd y pwerau hyn yn caniatáu i ni, os bydd angen, i godi tâl am eitemau plastig untro problemus eraill lle gallai gwaharddiadau llwyr neu gyfyngiad gwerthu fod yn llai ymarferol. Mae'r tâl am fagiau siopa untro yn enghraifft o'r ffordd y mae ardoll a ddefnyddir yn y man gwerthu wedi helpu i sbarduno newid ymddygiad cadarnhaol ac wedi codi ymwybyddiaeth o'u heffaith ar yr amgylchedd.

**21. A allwch chi gadarnhau ai eich bwriad yw defnyddio'r pwerau i godi tâl hyd nes y gellir cyflwyno gwaharddiad ar eitemau plastig untro?**

Bydd y gwaharddiad arfaethedig ar eitemau plastig untro penodol yn cael ei gyflwyno gan ddefnyddio'r pwerau deddfwriaethol presennol ac sydd yn adran 140 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, ond byddai cyflwyno unrhyw daliadau am eitemau plastig untro yn dibynnu ar bwerau sydd yn y Bil nad ydynt ar waith eto, sy'n golygu na ellir bwrw ymlaen â chodi tâl o'r fath ar yr un cyflymder.

Yn y ddogfen ymgynghori *Mwy nag Ailgylchu: strategaeth i wneud economi gylchol Cymru yn realiti* rydym wedi ymrwymo i weithio ar gynigion ar gyfer treth neu dâl ar gwpanau a chynwysyddion bwyd plastig tafladwy. Mae'n wir hefyd y gallai codi tâl ganiatáu i dechnolegau ailgylchu neu weithgynhyrchu ddatblygu hefyd er mwyn caniatáu i eitemau plastig untro gael eu disodli gan rywbeth llai niweidiol i'r amgylchedd.

Mae swyddogion Trysorlys Cymru yn parhau i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth mewn perthynas â threth neu godi tâl ar gwpanau plastig untro, yn benodol yr effaith bosibl ar fanwerthwyr. Pe bai treth - yn hytrach na thâl a godir – yn cael ei hystyried yn ffordd effeithiol o sbarduno newid ymddygiad cadarnhaol, yna byddai angen i Lywodraeth y DU gymeradwyo'r cynnig yn gyntaf drwy'r drefn y darperir ar ei chyfer o dan Ddeddf Cymru. Mae'n werth nodi bod y broses ar gyfer cyflwyno treth yn wahanol i'r pwerau i gyflwyno trefniadau codi tâl y darperir ar eu cyfer o dan Fil Amgylchedd y DU.

**22. Mae tystiolaeth wedi dod i law'r Pwyllgor sy'n awgrymu y dylid ymestyn y pwerau i godi tâl am eitemau untro y tu hwnt i blastigau ac ar gyfer deunyddiau eraill. Yn ôl rhanddeiliaid, byddai hynny'n helpu i osgoi cymell cynhyrchwyr i ddisodli plastig â deunyddiau eraill sy'n niweidiol i'r amgylchedd ar gyfer eitemau defnydd untro. Beth yw eich ymateb i hyn?**

Roedd cais Trysorlys EM am dystiolaeth ar fynd i'r afael â phroblem plastig a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018 yn canolbwyntio ar eitemau untro wedi'u gwneud o blastig, ac yn edrych yn benodol ar sut y gallai newidiadau i'r system drethi neu gyflwyno taliadau newydd newid ymddygiad cwmnïau a defnyddwyr i fod yn fwy cynaliadwy. Er bod Llywodraeth y DU wedi ystyried ymestyn y pŵer hwn i ddeunyddiau eraill, roedd yr amserlen dynn sydd ei hangen i ddatblygu'r Bil a diffyg tystiolaeth ehangach yn gwneud y dull hwn yn anymarferol. Fodd bynnag, pan fydd y pwerau hyn wedi'u sefydlu, gallai Llywodraeth Cymru ystyried diwygio'r ddeddfwriaeth maes o law fel ei bod yn cynnwys eitemau eraill pe ystyrid bod gwneud hynny'n briodol.

Mae darpariaethau eraill yn y Bil, yn enwedig Atodlen 4 Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ac Atodlen 7 Gofynion Effeithlonrwydd Adnoddau, yn darparu mecanweithiau defnyddiol eraill y gellir eu defnyddio ar gyfer deunyddiau neu gynhyrchion eraill sy'n niweidiol i'r amgylchedd.

**Rhan 4 - Ansawdd Aer**

**23. O ystyried yr ansicrwydd ar hyn o bryd yn sgil pandemig Coronafeirws Covid-19 – a'r effaith bosibl ar fusnes y Llywodraeth yn y tymor canolig – a allwch chi gadarnhau a ydych dal yn bwriadu cyhoeddi Papur Gwyn yn ystod tymor y Cynulliad hwn?**

Rydym yn dal i fod yn bwriadu cyhoeddi Papur Gwyn ar Fil Aer Glân cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Mae swyddogion wrthi'n datblygu polisïau ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ar hyn o bryd.

**24.** Pam ydych chi wedi dewis dwyn y cynnig uchod ymlaen trwy Fil y DU **(*"diwygio deddfwriaeth sylfaenol bresennol i symud o ddiweddaru [rhestri o danwydd awdurdodedig a lleoedd tân eithriedig i'w defnyddio mewn ardaloedd rheoli mwg]***

***drwy Offeryn Statudol i restri cyhoeddedig ar-lein". Mae rhan 2 o Atodlen 12 o Fil y DU yn gwneud darpariaeth ar gyfer hyn*),** o ystyried nad yw canlyniad ymgynghoriad y Cynllun Aer Glân yn hysbys eto, ac o ystyried ymrwymiad Llywodraeth Cymru i flaenoriaethu Bil Aer Clir?

Yn y Cynllun Aer Glân, lle y gwnaethom amlinellu a gofyn am farn ar y gwaith rydym yn bwriadu ei wneud mewn perthynas â llosgi domestig (megis y camau rheoleiddiol a'r rhai nad ydynt yn rhai rheoleiddiol a restrwyd yn yr ymgynghoriad), gwnaethom gyfeirio at waith a oedd yn cael ei wneud eisoes drwy Fil Amgylchedd y DU i roi enghreifftiau o'r camau a gymerwyd hyd yma. Penderfynodd Llywodraeth Cymru gynnwys y ddarpariaeth rhestri cyhoeddedig ym Mil Amgylchedd y DU er mwyn sicrhau'r manteision a ddisgrifir yn yr ateb i gwestiwn 1 yn yr amser byrraf posibl. Mae hyn yn galluogi gweithgynhyrchwyr i werthu eu cynhyrchion heb rwystr, gan gynyddu dewis y defnyddiwr a gwella'r amgylchedd drwy ei gwneud yn haws nodi tanwyddau a lleoedd tân y gellir eu defnyddio'n gyfreithlon mewn ardaloedd rheoli mwg. Mae'n werth nodi bod y ddarpariaeth hon yn welliant i weithrediad y gyfundrefn rheoli mwg yng Nghymru yn hytrach na newid polisi. Mae'n uniongyrchol gysylltiedig â nod y Rhaglen Lywodraethu o wella ansawdd aer. Yn yr achos hwn, drwy leihau allyriadau PM2.5 o losgi domestig. Roedd angen mwy o amser ar Lywodraeth Cymru hefyd i ymgymryd â meddwl datblygiadol am y cynigion yn y Cynllun Aer Glân a fydd, yn ei dro, yn llywio'r darpariaethau mewn Bil Aer Glân. Dyna pam nad yw'r ddarpariaeth rhestri cyhoeddedig ym Mil Amgylchedd y DU yn gyfamserol â'r gwaith ar y Cynllun Aer Glân a'r Bil Aer Glân

**Rhan 5 – Dŵr**

**25. A allwch chi roi manylion unrhyw ymgynghoriad rydych chi wedi'i gynnal gyda rhanddeiliaid Cymru ar y darpariaethau ar gyfer Cymru yn Rhan 5 o Fil y DU, a chanlyniad yr ymgynghoriad hwnnw?**

Mae Rhan 5 yn cyflwyno amrywiaeth o fesurau i gryfhau cydnerthedd gwasanaethau dŵr a gwastraff dŵr drwy wella trefn gynllunio hirdymor y diwydiant dŵr a moderneiddio'r ffordd y mae cwmnïau dŵr a charthffosiaeth yn cael eu rheoleiddio i'w gwneud yn fwy hyblyg a thryloyw.

Sefydlwyd Rhaglen Ddraenio'r 21ain Ganrif gan Water UK (corff Prydeinig sy'n cynnwys ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth ledled y DU ac Iwerddon) i ystyried sut i sicrhau y gellir gwella a diweddaru gwaith cynllunio, buddsoddi, cyflenwi a pholisi rheoleiddio cwmnïau dŵr sy'n ymwneud â chynllunio seilwaith carthffosiaeth y DU i ddiwallu anghenion cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Aeth ati i ymchwilio a datblygu dulliau i ddeall problemau presennol a hirdymor sy'n wynebu'r sector draenio'n well. Nod y rhaglen oedd deall gofynion presennol a hirdymor ein rhwydweithiau draenio a datblygu fframwaith cynllunio tryloyw sy'n seiliedig ar dystiolaeth, i sicrhau bod gwasanaethau draenio cryf a fforddiadwy'n cael eu darparu. Mabwysiadodd ddulliau seiliedig ar bartneriaeth, gan weithio gyda chwmnïau dŵr, rheoleiddwyr, awdurdodau lleol, a chyrff anllywodraethol. Mae Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru yn aelodau o Grŵp Llywio'r Rhaglen.

Roedd y rhaglen yn argymell rhoi sail statudol i waith cynllunio ar gyfer gwasanaethau draenio a dŵr gwastraff, gan ddilyn dull tebyg i'r un sydd eisoes ar waith ar gyfer cynllunio adnoddau dŵr. Roedd y dulliau a ddefnyddiwyd gan y prosiect, a'r cynigion yn cyd-fynd yn helaeth ag ymrwymiadau yn y Strategaeth Ddŵr i Gymru gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys y canlynol;

- Byddwn yn gweithio gyda chwmnïau dŵr, rheoleiddwyr ac awdurdodau lleol i gyflwyno cynlluniau ar gyfer rheoli dŵr gwastraff a charthffosiaeth. Mae cynllunio cydweithredol hirdymor ar gyfer rheoli dŵr gwastraff a charthffosiaeth yn hanfodol er mwyn mynd i'r afael â pherygl llifogydd trefol a chyflawni canlyniadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a'r Gyfarwyddeb Trin Dŵr Gwastraff Trefol.

- Ein nod yw sicrhau bod systemau carthffosiaeth a draenio yn gydnerth ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda, gyda digon o gapasiti i reoli'r galw a roddir arnynt heb achosi llygredd na llifogydd o garthffosydd yng nghartrefi pobl. Bydd hyn yn ein galluogi i symud tuag at ddull ataliol, sy'n egwyddor allweddol arall o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

- Dylai fframwaith cynllunio a rheoleiddio cwmnïau dŵr ar gyfer dŵr a charthffosiaeth gynnwys:

  - Ymwreiddio ac alinio gwaith cynllunio cwmnïau dŵr â'n polisi adnoddau naturiol cenedlaethol a phrosesau cynllunio adnoddau naturiol perthnasol sy'n seiliedig ar ardal i sicrhau bod cynllunio ar gyfer gwasanaethau dŵr yn llywio ac yn ystyried ein blaenoriaethau ar gyfer rheoli adnoddau naturiol.
  - Cynlluniau rheoli dalgylchoedd a buddsoddi cydweithredol.
  - Mesurau cydnerthedd, megis amcanestyniadau newid yn yr hinsawdd, twf y boblogaeth a datblygiadau newydd.
  - Rhagdybiaeth o blaid atebion cynaliadwy, a thystiolaeth o'u defnyddio yn hytrach nag ehangu neu adnewyddu capasiti seilwaith presennol.
  - Strategaeth ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid.
  - Tystiolaeth yr ystyriwyd atebion dŵr a thrin gwastraff cynaliadwy, cyfiawnhad cryf lle nad ydynt yn cael eu defnyddio.
  - Tystiolaeth gadarn, gyfredol a chredadwy i ddangos eu bod yn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau domestig ac Ewropeaidd gorfodol.

Ymgynghorwyd yn helaeth ar y Strategaeth Ddŵr ac fe'i gosodwyd gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

Gall rhoi Cynlluniau Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff (DWMPs) ar sail statudol sicrhau bod prosesau cynllunio eraill yn ystyried y Cynllun, ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhanddeiliaid perthnasol ymgysylltu â'r ymgymerwyr a rhannu gwybodaeth â hwy at ddibenion paratoi Cynlluniau, a bod Ofwat yn eu hystyried fel rhan o'r broses adolygu prisiau a datblygiad fframwaith rheoleiddio'r diwydiant. Gall sicrhau bod ymgymerwyr yn cadw at eu hymrwymiad i baratoi ac ymgynghori ar Gynlluniau Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff, galluogi Llywodraeth Cymru i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â pholisïau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, a darparu proses ac amserlen glir a thryloyw ar gyfer y cynlluniau. Gall roi rôl glir i Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd o ran cymryd rhan yn y broses o ddatblygu'r cynlluniau, darparu canllawiau technegol i'r ymgymerwyr a chynghori Llywodraeth Cymru ar ansawdd a chadernid y cynlluniau. Heb eu rhoi ar sail statudol mae perygl na fydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn dyrannu nac yn derbyn yr adnoddau i roi lefel debyg o ymgysylltiad i'r Cynlluniau Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff o’u cymharu â’r Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr.

Mae'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â'r cynnwys a'r gweithdrefnau sydd i'w dilyn wrth baratoi a chyhoeddi'r Cynlluniau. Cyn defnyddio'r pwerau, byddai Gweinidogion Cymru yn ymgynghori â rhanddeiliaid ar y rheoliadau arfaethedig.

**26. Sut a phryd ydych chi'n bwriadu defnyddio'r pwerau a roddir i Weinidogion Cymru yn Rhan 5 o Fil y DU?**

Mae Bil y DU yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â Chynlluniau Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff, Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr, Cynlluniau Sychder, cynigion ar y cyd ac i ddiwygio rhai agweddau ar ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag ansawdd dŵr. Mae'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru hefyd i'w gwneud yn ofynnol i ddau neu ragor o gwmnïau dŵr baratoi cynigion ar y cyd i wella'r ffordd y caiff adnoddau dŵr eu rheoli a'u datblygu.

Nid oes gan Lywodraeth Cymru amserlen ar gyfer defnyddio'r pwerau hyn, a bydd yn ymgynghori â rhanddeiliaid ar yr holl reoliadau arfaethedig. Nid oes ganddi unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i'w gwneud yn ofynnol i gwmnïau dŵr lunio cynigion ar y cyd, a byddai'n ymgynghori â rhanddeiliaid cyn rhoi Cyfarwyddyd o'r fath.

**27. A allwch chi esbonio’r rhesymeg dros ddefnyddio'r ymadrodd 'rheoli draenio a charthffosiaeth' yn y cyd-destun hwn?**

Yn ymarferol, mae 'rheoli draenio a charthffosiaeth' yn golygu'r un peth â "rheoli draenio a dŵr gwastraff”. Mae'r term rheoli carthffosiaeth yn cysoni'r ymadrodd a'r diffiniad â'r derminoleg a ddefnyddir yn Neddf y Diwydiant Dŵr 1991

**28. Sut ydych yn ymateb i'r pryder mewn tystiolaeth bod yr ymadrodd 'rheoli draenio a charthffosiaeth' yn gulach ei gwmpas na 'rheoli draenio a dŵr gwastraff', sef yr ymadrodd a fabwysiadwyd eisoes gan y diwydiant?**

- **Pa fathau o ddŵr a gwmpesir gan yr ymadrodd 'draenio a dŵr gwastraff' nad ydynt yn cael eu cwmpasu gan yr ymadrodd 'rheoli draenio a charthffosiaeth', a sut yr ymdrinnir â’r mathau hynny o ddŵr?**

Mae gan gwmnïau dŵr nifer o ddyletswyddau statudol mewn perthynas â draenio a charthffosiaeth. Mae ganddynt ddyletswydd benodol i "ddraenio'n effeithiol" o fewn eu hardaloedd gweithredu, i ddarparu a chynnal systemau carthffosydd a mabwysiadu carthffosydd newydd os bodlonir amodau penodol. Fodd bynnag, nid oes ganddynt ddyletswydd benodol, statudol i gynllunio ar gyfer rheoli draenio a rhwydweithiau dŵr gwastraff.

**Defnyddio'r term draenio:** Yn ymarferol, mae 'rheoli draenio a charthffosiaeth' yn golygu'r un peth â "rheoli draenio a dŵr gwastraff”. Math o ddŵr gwastraff yw carthffosiaeth - fel y mae wedi'i eirio yn y Bil mae'n gyson â dyletswyddau'r cwmni dŵr a'r asedau y mae'n berchen arnynt fel y'u nodir yn Neddf Diwydiant Dŵr 1991. Awdurdodau lleol, fel yr awdurdodau llifogydd lleol arweiniol, sy'n gyfrifol yn gyffredinol am reoli dŵr wyneb a llifogydd.

**29. Pa waith ydych chi wedi'i gynnal i asesu'r gost bosibl i gwmnïau dŵr a/neu garthffosiaeth o fodloni'r gofynion o ran cynigion ar y cyd, cynlluniau rheoli adnoddau dŵr, cynlluniau sychder, a chynlluniau rheoli draenio a charthffosiaeth?**

Mae'r costau y cyfeirir atynt yn y nodiadau esboniadol yn cyfeirio at y Bil yn ei gyfanrwydd ac nid at Adran 5 yn benodol. Ac eithrio Cynlluniau Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff statudol ni ddylai fod unrhyw gostau ychwanegol gan fod cwmnïau dŵr eisoes yn paratoi cynlluniau rheoli adnoddau dŵr a sychder statudol.

Mae'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i gwmnïau dŵr lunio cynlluniau rheoli adnoddau dŵr ar y cyd ond nid oes unrhyw fwriad ar hyn o bryd i ddefnyddio'r pŵer hwn. Pe bai'r angen i wneud hynny yn dod yn amlwg, byddem yn ystyried unrhyw oblygiadau o ran adnoddau gyda'r cwmnïau dŵr a'r rheoleiddwyr.

Mae'r cwmnïau dŵr yng Nghymru a Lloegr wedi ymrwymo eisoes i baratoi cynlluniau rheoli draenio a dŵr gwastraff ar sail anstatudol erbyn 2022. Caiff costau hyn eu talu drwy'r mecanwaith adolygu prisiau a wneir gan Ofwat bob pum mlynedd. Efallai y bydd rhai costau ychwanegol i Cyfoeth Naturiol Cymru ond byddai'r rhain yn dibynnu ar hyd a lled eu rôl o ran rheoleiddio a gwerthuso'r cynlluniau ac nid yw hynny wedi'i bennu eto. Bydd hwn yn fater ar gyfer ymgynghori a thrafod mwy manwl.

**Goblygiadau ariannol y darpariaethau yng Nghymru**

**30. A allwch chi roi manylion unrhyw waith rydych chi wedi'i wneud er mwyn asesu costau'r darpariaethau i Gymru, ar gyfer Llywodraeth Cymru a chyrff perthnasol eraill fydd yn gorfod talu'r costau?**

Bydd y rhaglenni ar y cyd sy'n datblygu Cynllun Dychwelyd Ernes (DRS) a Chyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ( EPR) yn cynnwys asesiad effaith rheoleiddiol sy'n nodi costau gweithredu a chynnal y cynlluniau hyn. Caiff hyn ei fireinio wrth i'r opsiynau a ffefrir ddod i'r amlwg ac wrth i fanylion y ddau gynllun gael eu llunio.

Yn gyffredinol, dylai EPR a DRS fod yn niwtral o ran cost i arian cyhoeddus gyda'r cynlluniau'n ceisio adennill eu costau drwy'r ffioedd a'r taliadau a fydd yn daladwy gan y diwydiant. Bydd hyn yn cynnwys costau i dalu am oruchwylio rheoleiddiol drwy fonitro a gorfodi cydymffurfiaeth. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod costau cychwynnol i'r ddau gynllun, i gefnogi hyn mae cyllideb Trysorlys EM ar 11 Mawrth 2020 wedi dyrannu £700,000 ar gyfer gwaith TGCh cychwynnol ar EPR ar gyfer deunydd pacio.

Mewn perthynas â chymal 70 a Rhan 2 o Atodlen 12, bydd swyddogion yn gwneud gwaith pellach mewn perthynas ag amcangyfrifiadau cost ond mae asesiad rhagarweiniol yn dangos y bydd y costau'n fach iawn heb unrhyw gostau parhaus ar wahân i gostau cyfieithu.

Mae'r diwygiadau i ardollau ac ardrethi draenio tir yn cryfhau sefyllfa Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gweinyddu Byrddau Draenio Mewnol yng Nghymru, gan ddarparu mecanwaith felly ar gyfer cymhwyso ardollau ac ardrethi draenio cywir.

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn deillio o'r pwerau a roddir i Weinidogion gan y darpariaethau cemegion gan nad oes rhaid i Weinidogion eu harfer. Nid yw'r darpariaethau'n creu rhwymedigaethau newydd ond yn rhoi pwerau i ddiwygio'r Rheoliadau REACH presennol. Pan fydd Gweinidogion yn penderfynu arfer y pwerau hyn byddai asesiad o'r goblygiadau ariannol yn cael ei wneud ar y pryd. Gallai hyn arwain at gostau ariannol neu arbedion.

Cyfeiriwch at gwestiwn 29 mewn perthynas â chostau i gwmnïau dŵr a/neu garthffosiaeth o ran bodloni'r gofynion ar gyfer cynigion ar y cyd, cynlluniau sychder rheoli adnoddau dŵr, a chynlluniau rheoli draenio a charthffosiaeth.